

## **YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R ARGYMHELLION YN ADRODDIAD Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG: ALLGYMORTH DECHRAU'N DEG**

---

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dilyn ei ymchwiliad i Allgymorth Dechrau'n Deg.

Mae ein Strategaeth Genedlaethol, *Ffyniant i Bawb* yn nodi'r blynyddoedd cynnar fel maes blaenoriaeth. Rydym eisiau sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau posibl i'w bywydau. Ein nod yw sicrhau y bydd pawb yn cael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial a manteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd i fyw bywyd iach, ffyniannus a llawn boddhad fel oedolyn, gan eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn cymunedau, y gweithle, a chyfrannu at lwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol.

Mae Dechrau'n Deg yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r weledigaeth hon. Ei nod yw gwneud gwahaniaeth pendant i fywydau plant yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'n gallu newid bywydau pobl, ac mae'n llwyddo i wneud hynny. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn sy'n dangos bod cynyddu'r buddsoddiad yn y blynyddoedd cynnar yn cael effaith well ar iechyd a chanlyniadau addysgol plant o deuluoedd difreintiedig yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, bydd y buddsoddiad yn gwella'u sgiliau bywyd ac yn y pen draw dylai'r bylchau o ran canlyniadau plant sy'n byw mewn tldi leihau. Rydym yn dechrau gweld y canlyniadau eisoes.

Mae gwerthusiad cadarn wedi darparu tystiolaeth sy'n dangos bod Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol wirioneddol ar blant – pan fyddant yn mynd i'r ysgol maent yn barod i ddysgu ac yn fwy hyderus wrth gymysgu â phlant eraill. Mae'r rhaglen wedi arwain at gymorth gwell a chynharach i deuluoedd, tra bod cysylltiad ag ymwelwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol Dechrau'n Deg eraill wedi arwain at sicrhau bod rheini yn fwy hyddysg a hyderus.

Ar hyn o bryd mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn cael ei darparu i dros 37,000 o blant o dan 4 oed sy'n byw yn rhai o ardaloedd sydd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Mae hyn gyfwerth â thua 25% o'r holl blant o dan 4 oed yng Nghymru. Mae ymchwil yn dangos y manteision hirdymor posibl sydd ynghlwm wrth fuddsoddi mewn addysg gynnar a gofal plant ar gyfer pob plentyn ond yn enwedig y rhai sy'n ddifreintiedig.

Nid nod y rhaglen Dechrau'n Deg, ynddi'i hun, yw ymdrin â'r holl elfennau sydd ynghlwm wrth dlodi. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar wella'r cymorth sydd ar gael i rieni, drwy wella mynediad i ymwelwyr iechyd, gofal plant, rhaglenni rianta a chymorth gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae hawl graidd y rhaglen yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn deillio o amrywiaeth o opsiynau sydd wedi profi eu bod yn dylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol i blant a'u teuluoedd. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at welliannau hirdymor o ran canlyniadau addysgol, cymdeithasol ac iechyd plant mewn cymunedau difreintiedig. Yn yr un modd â llawer o raglenni ymyrraeth gynnar, fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd rhai o'r canlyniadau yn cael eu gwireddu

am sawl blwyddyn.

Er mai dyma brif raglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru, nid dyma'r unig ymyrraeth a chymorth sy'n gwella canlyniadau plant yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Nod Plant Iach Cymru yw darparu amserlen gyffredinol ar gyfer ymweliadau iechyd a chysylltiadau nyrsys ysgol ar gyfer pob plentyn o'r cyfnod beichiogi i 7 oed, gydag ymyriadau manwl a dwys i'r teuluoedd a'r plant hynny sydd â lefelau uwch o angen. Mae'n nodi'r cysylltiadau wedi'u trefnu y gall pob teulu yng Nghymru eu disgwyl o'r cyfnod trosglwyddo o'r gwasanaeth mamolaeth i'r blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol ac mae'r cysylltiadau hyn yn cynnwys monitro a chefnogi datblygiad plant. Mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd gyflwyno'r gwasanaeth yn llawn erbyn mis Hydref 2018.

Mae prif raglen cymorth i deuluoedd, Teuluoedd yn Gyntaf, yn darparu cymorth cyfannol, amlasiantaeth i deuluoedd sydd â phlant o bob oedran, gyda phwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal. Mae asesu a theilwra cymorth i deuluoedd mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar deuluoedd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i deuluoedd ac mae cyfleoedd bywyd yn gwella wrth i'r teuluoedd hyn ddod yn fwy hyderus, cydnerth ac annibynnol. Yn 2016-17, cytunodd 4,287 o deuluoedd ledled Cymru ar gynllun gweithredu ar gyfer cymorth amlasiantaeth wedi'i gydlynu drwy'r Tîm o Amgylch y Teulu, sy'n elfen allweddol o'r rhaglen.

Mae'r Rhaglen Gydweithredol, Y 1000 Diwrnod Cyntaf, a gaiff ei rhedeg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ffordd o helpu i ddatblygu a gwella arferion proffesiynol. Ar hyn o bryd, mae 5 Bwrdd Iechyd wedi cofrestru ar y rhaglen: Wrecsam, Torfaen, Conwy a Sir Ddinbych, Abertawe a Chaerffili.

Mae gan bob plentyn yng Nghymru fynediad i'r Cyfnod Sylfaen, sef cwricwlwm dysgu sy'n briodol yn ddatblygiadol i blant 3-7 oed ac, yn ogystal, rydym yn cyflwyno ein cynnig gofal plant uwch ar gyfer rhieni sy'n gweithio a chanddynt blant yn 3-4 oed. Bwriedir i bob un o'n rhaglenni blynyddoedd cynnar gefnogi plant a'u teuluoedd i sicrhau'r canlyniadau hirdymor gorau.

Mae elfen allgymorth Dechrau'n Deg yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddarparu cymorth Dechrau'n Deg i blant a'u teuluoedd sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg penodedig. Amcanion allgymorth yw:

- Ymestyn cyrhaeddiad Dechrau'n Deg i deuluoedd y nodwyd bod ganddynt anghenion ac sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg;
- Darparu elfen o hyblygrwydd yn y modd y caiff y rhaglen ei chyflwyno gan awdurdodau lleol; a
- Darparu cymorth parhaus i blant a theuluoedd sy'n symud o ardaloedd Dechrau'n Deg, neu lle mae angen iddynt barhau i dderbyn y ddarpariaeth cyn derbyn gwasanaethau eraill neu ddarpariaeth eraill.

Ym mis Hydref, cytunodd Gweinidogion i gynnal adolygiad cyflym o'r rhaglen Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas at y diben. Rydym

eisiau adeiladu ar gyflawniadau sylweddol y rhaglen a dysgu o'r hyn sy'n gweithio'n dda, yn enwedig o ran sut y gallwn ddwysáu trefniadau gweithio mewn partneriaeth, yn gydweithredol ac aml-asiantaeth ar draws sectorau er mwyn cefnogi plant ifanc a'u teuluoedd. Mae gwaith yn mynd rhagddo a rhagwelwn y gallwn roi diweddiariad i'r Pwyllgor ar hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Wrth fyfyrion ar yr ymrwymiad yn y Strategaeth Genedlaethol i greu: "system fwy cydgysylltiedig ac ymatebol a fydd yn rhoi lle canolog i anghenion unigryw pob plentyn", rydym wedi sefydlu rhaglen waith i archwilio sut rydym yn creu system blynyddoedd cynnar, yn lleol ac yn genedlaethol. Byddai hyn yn golygu bod pob gwasanaeth y mae teuluoedd a phobl ifanc yn dod i gysylltiad ag ef yn glir o ran sut mae'n cefnogi datblygiad plant yn yr ystyr ehangaf. Bydd yn targedu rhieni cyn gynted â phosibl ac yn cynnal cymorth lle y bo angen. Elfen allweddol o'r rhaglen hon yw prosiect cyd-adeiladu dwys gyda dau Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i archwilio opsiynau i ad-drefnu'r system ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn lleol. Ein nod yw datblygu un dull gweithredu cydlynol o ran y blynyddoedd cynnar, a fydd yn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd fwy cydweithredol ac integredig. Bydd hyn yn darparu opsiynau ar gyfer ystyried strwythur y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn y dyfodol mewn ffordd gyfannol.

## **Nodir yr ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

### **Argymhelliad 1**

- **Oherwydd pryderon y Pwyllgor ynglŷn â ffocws daearyddol y rhaglen Dechrau'n Deg a digonolrwydd y lefel ddiwygiedig o hyblygrwydd a ddyrennir i gyllid allgymorth, bod y Gweinidog: yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch y broses y cytunwyd ar 5 y cant fel y lefel briodol o gynnydd yn y dyraniad cyllid allgymorth yn dilyn adolygiad diweddar Llywodraeth Cymru a thrafodaethau â chydgyssylltwyr rhaglenni awdurdodau lleol;**
- **yn esbonio sut y dangosodd yr awdurdodau lleol hynny i Lywodraeth Cymru y byddai ail-ddyrannu adnoddau cyfyngedig o raglen ehangach Dechrau'n Deg i wasanaethau allgymorth yn sicrhau manteision i ddefnyddwyr gwasanaethau.**

### **Ymateb: Derby**

Fel y gŵyr y Pwyllgor, cyflwynwyd newidiadau i'r canllawiau allgymorth yn 2014 i roi rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodau lleol. Ym mis Tachwedd 2017, yn dilyn trafodaethau ag awdurdodau lleol ac i gydnabod yr angen a fynegwyd gan rai am fwy o hyblygrwydd, penderfynodd y Gweinidogion lacio'r terfyn cyllido i ganiatáu i awdurdodau ddefnyddio hyd at 5% o'u dyraniad cyllideb Dechrau'n Deg llawn ar gyfer allgymorth ar unwaith, yn unol â'r swm y gellid ei drosglwyddo rhwng rhaglenni.

Bwriad hyn oedd bod yn ymateb pragmataidd, yn seiliedig ar ganfyddiadau

cychwynnol a ddeilliodd o drafodaethau gyda rhai awdurdodau lleol a nododd fod y cynnydd o 2.5% mewn cyllid yn annigonol. Roedd hynny, yn fwiadol, yn gynnydd cymedrol i helpu i gydbwysu'r perygl o wasgaru gwasanaethau'n rhy denau o fewn yr un lefel gyllido. Gallai hyn wanhau'r effaith ar gyfer poblogaeth darged Dechrau'n Deg a dileu'r gallu i newid canlyniadau yn sylweddol. Byddwn yn cynnal y terfyn o 5% ar gyfer 2018/19 i roi amser inni ymchwilio gydag awdurdodau i oblygiadau llawn unrhyw lacio pellach.

Awgrymodd awdurdodau lleol nifer o ffyrdd y gallai ailddyrannu adnoddau yn y modd hwn arwain at fanteision i ddefnyddwyr gwasanaethau. Ymhlith y rhain roedd darparu cymorth ychwanegol i 'gymunedau o ddiddordeb' fel hosteli ar gyfer pobl ddigartref, teuluoedd sy'n deithwyr a/neu llochesi i fenywod. Mae sawl awdurdod lleol yn bwriadu cyfeirio teuluoedd ar gyfer allgymorth drwy eu 'Tîm o Amgylch y Teulu' lleol, sy'n rhan o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, gan ddefnyddio dull 'Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd' i asesu anghenion y teulu. Er ei bod yn ddyddiau cynnar, ymddengys fod y dull hwn yn gweithio'n dda, gan sicrhau mai dim ond teuluoedd y mae angen ymyrraeth Dechrau'n Deg arnynt sy'n derbyn y gwasanaeth.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

## **Argymhelliad 2**

**Bod y Gweinidog yn ystyried ymestyn hyblygrwydd cyllido allgymorth y tu hwnt i'r dyraniad 5 y cant a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Gweinidog gadarnhau yn ei ymateb i'r Adroddiad hwn a oes, yn wyneb y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn, angen cynnydd ychwanegol i'r dyraniad cyllido allgymorth neu a oes angen ailystyried ffocws daearyddol y rhaglen Dechrau'n Deg yn er mwyn galluogi'r rhai sydd mewn angen mwyaf i gael cymorth.**

### **Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn parhau i archwilio opsiynau allgymorth gydag awdurdodau lleol.

Caiff y cyllid ar gyfer allgymorth ei ddiwallu gan y gyllideb gyfredol a ddyrannwyd. Nid yw'n gronfa ar wahân ac mae unrhyw gynnydd o ran gwariant ar deuluoedd sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg yn golygu bod llai ar gael i'r rhai yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg.

Felly, mae'n hanfodol bod unrhyw newidiadau pellach yn cael eu hystyried yn llawn a'u rheoli'n dda er mwyn inni ddysgu lle mae hyn yn gweithio'n dda a datblygu modelau arfer dda, gan sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol mewn perthynas ag enw da cyffredinol y rhaglen.

Cafodd y canllawiau ar dargedu eu diweddarau yn 2014. Bellach gellir targedu codau

penodol o fewn Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is os bydd gan yr awdurdod lleol wybodaeth leol a thystiolaeth sy'n cefnogi'r penderfyniad. Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'r hyblygrwydd ychwanegol hwn. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ymchwilio i hyn ymhellach.

Bwriedir i Dechrau'n Deg fod yn rhaglen ddaearyddol sy'n seiliedig ar y gymuned. Nod yr hawl yw lleihau'r stigma sydd ynghlwm wrth deuluoedd yn cael mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, helpu i gefnogi cymdeithasu cynyddol a chreu ymdeimlad o gymuned ymhlith cyfranogwyr. Ar ben hynny, mae manteision logistaidd, gellid datblygu a sefydlu'r seilwaith a'r gweithlu yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg, a bydd cydleoli gwasanaethau mewn timau amlasiantaeth yn darparu mwy o arbedion effeithlonrwydd wrth ddefnyddio buddsoddiad cyfalaf. Mae'r cydleoli hyn yn cynorthwyo gyda chydweithredu ac ymatebion amlasiantaeth i nodi anghenion teuluoedd. Fodd bynnag, caiff y gwaith o dargedu cymorth Dechrau'n Deg mewn modd sydd wedi'i ddiffinio'n ddaearyddol ei ystyried fel rhan o waith Llywodraeth Cymru ar y system Blynnyddoedd Cynnar.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 3**

**Bod y Gweinidog, mewn perthynas â'r gostyngiad mewn gorraglennu Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn 2018-19 yn:**

- amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i sicrhau ei hun na fydd y newid hwn yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau;
- cadarnhau y bydd yr hyblygrwydd rhwng grantiau'n caniatáu yr un lefel o wariant ar Dechrau'n Deg ag yr oedd dull gor-raglennu yn arfer ei ganiatáu; ac
- egluro'r dyraniadau refeniw a chyfalaf ar gyfer Dechrau'n Deg yn 2018-19.

### **Ymateb: Derbynn**

Er mwyn helpu i reoli cyllidebau, rhoddwyd y cyfle i awdurdodau or-raglennu yn eu proffiliau cyllideb cychwynnol ar gyfer 2018-19, a gyflwynwyd fel rhan o'u Cynlluniau Cyflenwi ar gyfer 2018-19. Yn dilyn trafodaethau gydag awdurdodau lleol roedd y mwyafrif yn disgwyl rheoli'r gostyngiad o 1.8% mewn dyraniadau yn ystod y flwyddyn drwy danwario, er enghraifft o ganlyniad i swyddi gwag o fewn y rhaglen Dechrau'n Deg, sy'n gallu codi o fewn y rhaglen.

Dyluniwyd y trefniadau cyllido hyblyg ehangach newydd ar gyfer 2018-19, sy'n cynnwys Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, i helpu i wella ac integreiddio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i gefnogi teuluoedd a phobl ddifreintiedig ar draws Cymru yn well. Mae'r hyblygrwydd hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau yn lleol ynghylch y ffordd orau o ddyrannu eu harian i sicrhau

darpariaeth a bydd hefyd yn rhoi cyfleoedd i reoli a lleihau tanwario posibl yn well.

Yr awdurdodau lleol sy'n parhau i fod yn gyfrifol am reoli cyllidebau rhaglenni (gan gynnwys y gostyngiad o 1.8% mewn dyraniadau ac unrhyw gynigion i or-raglennu). Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r awdurdodau i fonitro hyn a bydd y broses bresennol o gyflwyno adroddiadau hawliadau ariannol ddwywaith y flwyddyn yn dychwelyd i drefn chwarterol er mwyn gwella'r broses o fonitro gwariant.

Rydym wedi cynyddu'r lefel o hyblygrwydd i symud arian o fewn Dechrau'n Deg heb droi at Lywodraeth Cymru, o 10% i 15% yn 2018-19.

Mae hyblygrwydd rhwng rhaglenni hefyd wedi cael ei osod ar lefel o 15% ar draws 5 grant (Cefnogi Pobl, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Y Gronfa Waddol a Chymunedau am Waith a Mwy) ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r ardaloedd braenaru. Ar gyfer ardaloedd braenaru, mae'n 100% ar draws y 10 rhaglen a gynhwysir yn y rhaglen beilot Ariannu Hyblyg (yn ogystal â'r rhaglenni Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc, Gofal Plant a Chwarae, Atal Digartrefedd, Gorfodi Rhentu Doeth Cymru a Chronfa Dydd Gŵyl Dewi).

Dyraniad refeniw y rhaglen Dechrau'n Deg ar gyfer 2018-19 yw £74.683 miliwn; y dyraniad cyfalaf ar gyfer Dechrau'n Deg yw £0.566 miliwn.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.**

#### **Argymhelliad 4**

**O ystyried y pryderon am ddata gwerthuso ar gyfer rhaglen ehangach Dechrau'n Deg a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn, a manteision mesuradwy cyfyngedig gwasanaethau Dechrau'n Deg a ddangoswyd yn y gwaith gwerthuso cyhoeddedig hyd yma, bod y Gweinidog yn:**

- ffurfioli'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei fesur o ran deilliannau drwy brosiect data SAIL ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg ehangach a'r elfen allgymorth ohoni;
- cadarnhau pa ddangosyddion perfformiad allweddol a ddefnyddir yn y dyfodol i ddangos llwyddiant (neu fel arall) y rhaglen a'i gwerth am arian wrth fynd yn ei blaen; a
- mesur nifer y plant sy'n elwa ar y rhaglen Dechrau'n Deg a'i helpen allgymorth drwy gyfrif cyfanswm nifer yr ymgysylltiadau ag unrhyw rai o bedair elfen y rhaglen Dechrau'n Deg, nid y cysylltiadau â'r ymwelydd iechyd yn unig, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Dechrau'n Deg wedi bod yn destun rhaglen werthuso annibynnol gref. Mae'r gwerthusiad hyd yma wedi cynnwys mesurau meintiol ac ansoddol yr effaith a'r ddarpariaeth, gan gynnwys cyfweiliadau manwl gyda theuluoedd ag anghenion uchel.

Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad yn awgrymu bod y rhaglen yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau teuluoedd Dechrau'n Deg. Mewn ymchwil ansoddol ddiweddar, nododd rhieni amrywiaeth o welliannau yn natblygiad eu plant. Ymhlith y gwelliannau roedd siarad a chyfathrebu, darllen a chyfrif, materion ymarferol ac ymddygiad ac agwedd. Yn ogystal, roedd bron pob rhiant a gyfwelwyd yn teimlo bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar les cyffredinol eu teuluoedd.

Mae ein gweithgaredd gwerthuso presennol yn dilyn yr argymhellion yn adroddiad Asesiad Gwerthuso Dechrau'n Deg a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylai gwaith gwerthuso yn y dyfodol gynnwys casgliad o ddata ar lefel unigol yn ymwneud ag ymgysylltu â'r rhaglen a hefyd archwilio'r opsiynau ar gyfer cysylltu â setiau data eraill, gan gynnwys data addysgol.

Felly, mae dwy ran yn perthyn i Brosiect Peilot Cyswllt Data Dechrau'n Deg:

- datblygu a threialu dull gweithredu safonol o ran casglu data ar lefel unigol ar blant Dechrau'n Deg; a
- sefydlu llif diogel o ddata dienw ar blant Dechrau'n Deg o (chwe chynllun peilot) awdurdodau lleol i Gronfa Ddata SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw) Llywodraeth Cymru a ariennir gan arian Craidd sydd wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Abertawe.

Mewn perthynas â'r trydydd pwynt bwled yn Argymhelliad 4, mae rhan gyntaf y prosiect peilot yn cynnwys gweithio gyda chwe awdurdod lleol i ddatblygu set gyson o eitemau data ynghylch plant Dechrau'n Deg y byddant y cynllun peilot yn eu casglu. Mae hyn yn cynnwys data craidd a rhywfaint o wybodaeth am eu hymgysylltiad â phob un o'r hawliau. Un o'r meysydd rydym wedi gofyn i awdurdodau lleol ei dreialu yw a yw'r plentyn wedi derbyn cymorth drwy gyllid allgymorth. Bydd hyn yn hwyluso dealltwriaeth well o ymgysylltiad plant a theuluoedd â'r rhaglen.

Mewn perthynas â'r pwynt bwled cyntaf yn Argymhelliad 4, rhan nesaf y prosiect peilot fydd profi dichonoldeb mewnforio data Dechrau'n Deg ar lefel unigolyn, gan gynnwys y maes ar allgymorth, o'r chwe awdurdod lleol peilot i SAIL. Pan fydd y data wedi'i gynnwys yn SAIL, bydd yn ein galluogi i archwilio canlyniadau plant Dechrau'n Deg a allai gynnwys: imiwneiddio, gweithgaredd ysbytai, presenoldeb yn yr ysgol a chyrraeddian addysgol. Felly, os bydd y prosiect peilot yn llwyddiannus, cam nesaf y gwerthusiad fydd cyflwyno'r dull gweithredu a datblygu cynnig o ran ymchwil ar gyfer archwilio canlyniadau plant Dechrau'n Deg ar lefel Cymru gyfan. Gallai hyn gynnwys allgymorth os tybir bod yr eitem ddata yn ddichonadwy drwy waith y prosiect peilot. Fel yr amlinellir yn yr ymateb i Argymhelliad 5 isod, bydd y pwyllgor yn cael diweddariad bob chwe mis ar gynnydd y prosiect peilot a chynlluniau ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Mewn perthynas â'r ail bwynt bwled yn Argymhelliad 4, ac fel y crybwyllir uchod, bydd cam nesaf y gwerthusiad yn cael ei bennu gan ganlyniad gwaith y prosiect peilot. Caiff gwybodaeth bellach ar y dull gwerthuso yn y dyfodol ar gyfer asesu llwyddiant a

gwerth am arian y rhaglen ei rhoi mewn diweddariad ym mis Hydref 2018, ar ôl i'r prosiect peilot gwblhau ei flwyddyn lawn gyntaf.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 5.**

**Bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariadau bob chwe mis ar y data a'r gwaith cryfhau gwerthuso sy'n digwydd.**

#### **Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Caiff y diweddariad cyntaf ei roi i'r Pwyllgor ar y gweithgaredd i werthuso Dechrau'n Deg ym mis Hydref 2018. Er mwyn caniatáu amser i'r gwaith peilot gael ei ystyried ac o bosibl ei gyflwyno ymhellach, byddai diweddariad mwy ystyrlon yn cael ei ddarparu 12 mis yn ddiweddarach yn hytrach nag ar ôl 6 mis arall.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 6.**

**Oherwydd y cynnydd rhanbarthol tebygol mewn ymagweddau at ymyrraeth sy'n deillio o hyblygrwydd ychwanegol, bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiadau monitro rheolaidd sy'n manylu ar unrhyw ddiwygiadau i'r ddarpariaeth gwasanaeth gan awdurdodau lleol.**

#### **Ymateb - Gwrthod**

Er mwyn lleihau'r baich adrodd ar awdurdodau lleol mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau a symleiddio faint o ddata sydd ei angen gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n angenrheidiol i gynhyrchu'r Bwletin Ystadegol Dechrau'n Deg.

Ni chaiff data ar allgymorth ei gasglu ar lefel Cymru gyfan. Fel y nodwyd uchod mewn ymateb i Argymhelliad 4, mae Prosiect Peilot Cyswllt Data Dechrau'n Deg yn gweithio gyda chwe awdurdod lleol i brofi dichonoldeb casglu data allgymorth mewn ffordd gyson. Rhoddir gwybodaeth am gynnydd yn y diweddariad nesaf i'r Pwyllgor.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 7.**

**Bod y Gweinidog yn rhoi adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ymhen chwe mis a 12 mis o gyhoeddi'r Adroddiad hwn i ddangos sut mae Llywodraeth Cymru**



wedi monitro ac adolygu:

- effeithiolrwydd gwasanaethau rheng flaen Dechrau'n Deg;
- cyrhaeddiad elfen allgymorth y gwasanaethau hynny (o ganlyniad i'r hyblygrwydd cynyddol sydd ar waith yn awr yn y gyllideb Dechrau'n Deg ac unrhyw hyblygrwydd pellach a gaiff ei weithredu mewn ymateb i argymhelliad 2 yr Adroddiad hwn); ac
- argaeledd staff i gefnogi'r rhaglen.

### **Ymateb – Derbynn mewn egwyddor**

Byddai'r terfynau amser a gynigir yn yr argymhelliad hwn yn rhy fuan i ddarparu trosolwg ystyrlon i'r Pwyllgor a byddai'n gosod beichiau ychwanegol ar awdurdodau lleol o ran adrodd a chasglu data.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2018 ar ganfyddiadau'r adolygiad o'r rhaglen Dechrau'n Deg ac, fel y nodwyd uchod, ar y cynnydd mewn perthynas â Phrosiect Peilot Cyswllt Data Dechrau'n Deg a chynlluniau ar gyfer gweithgaredd i werthuso Dechrau'n Deg.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

### **Huw Irranca-Davies AC/AM**

Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant  
Minister for Children and Social Care